

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Gorffennaf 2018

Annwyl Mick,

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 21 Mehefin ynglŷn â gwelliant Letwin i Fil yr UE (Ymadael), sydd erbyn hyn yn Adran 16 o Ddeddf yr UE (Ymadael).

Rydych yn iawn, wrth gwrs - petai Llywodraeth y DU yn cyflwyno Bil yn ymwneud â Lloegr yn unig ond a oedd yn ymdrin â materion a oedd fel arall wedi'u datganoli ac yn ddarostyngedig i reoliadau adran 12, byddai hynny'n mynd yn groes i'r Cytundeb Rhynglywodraethol. I egluro ymhellach felly, nid oedd bwriad yn fy llythyr i awgrymu y byddai'r ffaith unigol fod un o Filiau'r DU yn ymwneud â Lloegr yn unig yn rheswm pam na fyddai achos posibl o fynd yn groes i'r Cytundeb. Nid yw hynny'n wir wrth gwrs.

Ond, wrth wraidd eich cwestiwn rwy'n credu bod camddealltwriaeth o delerau'r Cytundeb, yn enwedig o ran y rhestr o feysydd polisi sydd wedi'i hatodi wrtho. Mae'r rhain yn feysydd polisi y mae'r ddwy Lywodraeth yn cytuno bod angen rhagor o waith a dadansoddi arnynt i ganfod os a ble y gallai fod angen fframweithiau deddfwriaethol, ac felly reoliadau adran 12. Felly, nid ydynt yn feysydd y bydd rheoliadau adran 12 yn gymwys iddynt, ond yn feysydd y gellid cyflwyno rheoliadau adran 12 oddi mewn iddynt. Mae'n bosibl y bydd gwaith pellach yn dangos nad oes angen unrhyw sylfaen ddeddfwriaethol o gwbl ac na fydd angen rheoliadau adran 12 o gwbl mewn perthynas â rhai o'r meysydd polisi.

Mae'r drafodaeth ynghylch fframweithiau sydd ar y gweill rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ym mhob un o'r meysydd hyn yn broses o ddadansoddi o fewn y meysydd hyn er mwyn nodi'r elfennau hynny lle bydd angen sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer fframweithiau, os bydd angen hynny o gwbl. Dim ond mewn perthynas â'r elfennau hyn y bydd gofyn cael rheoliadau adran 12. Nid ydym yn credu y bydd cwrpas tebygol y Bil drafft, i'r graddau y bydd yn gymwys i Loegr yn unig ond mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig, yn debygol o gael ei 'ddal' gan unrhyw reoliadau adran 12 posibl mewn perthynas ag ansawdd aer.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn egluro'r mater.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance